

O ble daw eich brecwast? gan Meira Shakespear

BRECWAST – yn ôl rhai arbenigwyr, dyma bryd bwyd pwysicaf y diwrnod. Ar ôl cysgu a gorffwys trwy'r nos, mae angen bwyd ar eich corff i wynebu bore hir o weithio'n galed neu chwarae'n egniol.



O ble daw eich bwyd brecwast? O ble daw'r bwyd i'r siopau a'r dŵr i'r tap?

Os oes gennych chi ieir neu gwch gwenyn yn yr ardd, mae'n amlwg o ble daw'r wyau a'r mêl, ond dim ond ychydig o bobl sydd yn byw felly. O ble daw'r bwyd i'r siop cyn cael ei brynu?

Bwyd	Ble mae cychwyn y daith				Mwy o wybodaeth
	Cymru	Prydain	Ewrop	Arall	
Bara					
Caws					
Cig moch					
Coffi					
Creision reis					
Creision yd					
Dwr					
logyrt					
Jam					
Llaeth/Llefrith					
Madarch					
Margarîn					
Marmalêd					
Mêl					
Menyn					
Selsig					
Sudd ffrwyth					
Te					
Uwd					
Wyau					

Ymarfer A


Uchod, mae tabl yn dangos rhestr o fwydydd a diodydd brecwast.

Ticiwch y blwch cywir gyferbyn â phob un i ddangos o ble mae pob un yn dod, yna, yn y golofn olaf, ychwanegwch wybodaeth a manylion pellach.

Bydd angen i chi astudio labeli a hysbysebion yn ofalus, ac os fedrwch chi, holi'r bobl sydd yn gwerthu'r bwyd.

Cofiwch: mae angen meddwl cyn ateb!

Dydy hi ddim yn ddigon dweud fod marmalêd cartref yn dod o gegin Mam neu Nain neu Mrs. Williams drws nesaf! Meddyliwch - o ble ddaeth yr orennau surion arbennig i'w wneud? Mae pawb yn gwybod mai o'r glaw y daw pob diferyn o ddŵr ond beth yw ei hanes rhwng syrthio o'r cwmwl a chyrraedd eich cartref?



Map 1 – Ynysoedd Prydain



Map 2 – Y Byd

Ymarfer B

Mae Map 1 yn dangos Ynysoedd Prydain a Map 2 yn dangos y byd. Gan ddefnyddio atlas i'ch cynorthwyo, nodwch o ble mae'r bwydydd brecwast yn dod, a marciwch linell i ddangos eu taith i'r bwrdd. Gwnewch dabl wedyn ar gyfer pob taith i ddangos - pellter tebygol y daith (cewch wneud hyn mewn llinell syth) - dulliau cludiant e.e. awyren, cwch, lori, fen fechan. Gall gwefannau cwmnïau eich cynorthwyo i weld o ble daw'r bwyd. **Pa effaith ydych chi yn credu y caiff y teithio yma ar newid Hinsawdd?**

